**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD 24 MAWRTH 2026, DRWY ZOOM AM 7:00 Y.H.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Rhys Parry (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Richard Robinson, Gwynedd Williams, Ann Lawton, Berwyn Parry Jones, Hefin Jones, Colin Swatridge, Dylan Jones, Beca Brown, Philip Roberts.

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Cemlyn Jones

**CYFIEITHYDD:** Lowri Gwyn – Lingo Cyf

**CLERC:** Meirion Jones

**1569. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod

**1570 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriad fel a nodwyd uchod

**1571. Datgan buddiant.**

Eitem 1578 (b) – Datganodd y Cynghorydd Rhys Parry fuddiant yn y cais yma oedd yn fuddiant personol a rhagfarnllyd. Fe ymadawodd y cyfarfod a ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r penderfyniad.

**1572. I dderbyn cofnodion cyfarfod 17 Chwefror 2026**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1573. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

**Eitem 1564** – Gofynnwyd gan y Cynghorydd Colin Swatridge os oedd unrhyw ddatblygiadau pellach gyda archwiliadau biniau halen, ac fe gadarnhawyd fod aelodau yn y broses o'i archwilio.

**Eitem 1566** – Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts bydd y pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf ar 14 o Ebrill 2026 yn trafod digwyddiad gyda'r bedd

**1574. I dderbyn diweddariad ar sefyllfa Ysgol Cwm y Glo (Cyng Berwyn Parry Jones)**

Yn sgil diddordeb lleol ar beth sydd yn mynd ymlaen yn Ysgol Cwm y Glo, ac fod Prif Weithredwr Menter Fachwen yn dod i gyfarfod mis Ebrill o'r cyngor cymuned i roi diweddariad ar ddatblygiadau sydd ar waith, cytunodd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones roi adroddiad ar beth sydd wedi digwydd hyd yma fel gwybodaeth gefndirol i'r aelodau.

- Adroddwyd fod yr Ysgol wedi cau yn Gorffennaf 2019 gyda dim disgybl yn yr ysgol
- Ysgol Gymunedol, oedd Ysgol Cwm yn wreiddiol ond erbyn y diwedd doedd dim digwyddiadau cymunedol yn cymryd lle ynddi
- Gofynnwyd of buasai Menter Fachwen yn cael cymryd les am yr Ysgol
- Ymgysylltwyd a'r gymuned leol a pawb yn unfrydol dylai ddod yn ôl i ddefnydd cymunedol.
- Neb eisiau gweld yr ysgol yn cael ei droi yn safle ar gyfer adeiladu tai
- Fod y cyngor cymuned yn cefnogi bwriad Menter Fachwen
- Cyn Prif Weithredwr Menter Fachwen ar y pryd eisiau gweld defnydd o'r ysgol
- Prif Weithredwr newydd Menter Fachwen o'r un farn a gyda sawl syniad ar gyfer y dyfodol
- Mae nifer o glybiau wedi datgan diddordeb am ddefnyddio'r ysgol
- Gofynnir i'r cyngor cymuned gefnogi'r datblygiadau
- Ceir mwy o fanylion yn nghyfarfod mis Ebrill.

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn a diolch yr adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ac fod y wybodaeth gefndirol yma o fydd ar gyfer cyfarfod mis Ebrill
b) Byddai'r cyngor cymuned yn parhau i gefnogi Menter Fachwen yn y datblygiad

**1575. I gymeradwyo tendrau ar gyfer torri gwair yn y fynwent, meysydd chwarae a llwybrau cyhoeddus**

Adroddwyd fod tendrau ar gyfer torri gwair yn y caeau chwarae, llwybrau cyhoeddus a'r fynwent yn dod i ben 31 Mawrth 2026. Roedd y cyngor eisoes wedi paratoi tendr ar gyfer y gwaith am y dair blynedd nesaf. Roedd tri tendr wedi dderbyn a mae angen i'r cyngor gymeradwyo'r tendrau**. Ni ellir cofnodi manylion a prisiau'r tendrau a dderbyniwyd oherwydd fod hyn yn wybodaeth fasnachol sensitif sydd gyda breintiau ynghlwm wrtho**

Adroddwyd fod y contractwyr presennol fel a ganlyn

Llwybrau Cyhoeddus – Mr Huw Owen
Caeau Chwarae – Mr Pat McGuinness
Y Fynwent – Gwasanaethau GR

**Penderfynwyd:**

Wedi ystyried safon y gwaith a'r prisiau a dderbyniwyd penderfynwyd cadw'r sefyllfa yr un fath am y dair blynedd nesaf a'r clerc i hysbysu'r contractwyr o hyn

**1576. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol Gynradd (Cyng Philip Roberts)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, fod y cyfarfod oedd i fod i'w gynnal fis Mawrth wedi symud ymlaen i fis Ebrill a bydd manylion llawn yn dod i law yn dilyn y cyfarfod yma. Fodd bynnag cyfeiriodd tuag at lythyr a dderbyniwyd gan Estyn, sydd wedi gylchredeg i'r aelodau yn barod

**1577. I ystyried enw ar ystâd o dai ger Glanffynnon gan Adra**

Mae'r cyngor cymuned wedi derbyn cais gan Adra i ddod fyny gyda cynnig am enw ar gyfer ystâd o 17 o dai newydd yn Llanrug.

**Penderfynwyd:** Yr aelodau ddod fyny a cynigion ar gyfer cyfarfod mis Ebrill

**1578. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C25/0950/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Codi estyniad un llawr ar gefn y eiddo, ynghyd ag estyniad llawr cyntaf dros y gegin/ystafell fwyta bresennol i ffurfio ystafell wely
**Ymgeisydd:** Miss Hannah Lloyd Owen
**Asiant:** Mr Alan Owen (A.L.I Building Design)
**Cyfeiriad:** 20 Nant Y Glyn, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AH
**Cyfeirnod Grid:** 253674, 363466.0000000009
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:**

b) **Rhif y Cais:** C26/0113/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniad deulawr i ochr yr eiddo.
**Ymgeisydd:** Mr and Mrs Rhys a Sioned Parry
**Asiant:** Mr H Gareth Jones (BDS Gwynedd)
**Cyfeiriad:** 1, Fron Oleu, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RT
**Cyfeirnod Grid:** 253803.9999999999, 362032.9999999989
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:**

c) **Rhif y Cais:** C26/0170/23/RA
**Math o Gais:** Caniatâd ar gyfer manylion wedi'u cadw'n ôl gan amod
**Bwriad:** Rhyddhau amod 7 ( cynllun ymchwilio archeoleg ysgrifenedig) ar ganiatâd Cynllunio C25/0651/23/LL.
**Ymgeisydd:** Ms Penny Lofts (Williams Homes (Bala) Ltd)
**Cyfeiriad:** Tir Oddi Ar Ffordd Glanffynnon, Llanrug, LL55 4PT
**Cyfeirnod Grid:** 253643.80793419993, 363056.01241766254
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:**

d) **Rhif y Cais:** C26/0164/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniadau, newidiadau a gwaith cysylltiedig arfaethedig
**Ymgeisydd:** Mr and Mrs SEAN CARTY
**Asiant:** Mr Osian Jones (Ty Architecture Cyf)
**Cyfeiriad:** Plas Tirion Lodge, Pontrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2SW
**Cyfeirnod Grid:** 251428.99999999994, 362743.00000000035
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:**

e) **Rhif y Cais:** C26/0174/23/RA
**Math o Gais:** Caniatad ar gyfer manylion wedi'u cadw'n ôl gan amod
**Bwriad:** Rhyddhau amod 2 ( cyflwyno cynllun ar gyfer datblygu tai fforddiadwy) o hawl cynllunio C25/0651/23/LL.
**Ymgeisydd:** Ms Penny Lofts (Williams Homes (Bala) Ltd)
**Cyfeiriad:** Tir Oddi Ar Ffordd Glanffynnon, Llanrug, LL55 4PT
**Cyfeirnod Grid:** 253643.2415976469, 363055.2497490612
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:**

**1579. Cais am grant – Clwb Pêl-droed Llanrug**

Derbyniwyd cais am grant gan Glwb Pêl-droed Llanrug

**Penderfynwyd:**

Cytuno i gyfrannu £1500

Daeth y cyfarfod i ben am 20:05

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: